| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adrodd i: | Pwyllgor Polisi Cynllunio |
| Dyddiad: | 10fed Medi 2025 |
| Subject: | Adroddiad Monitro Blynyddol Drafft 2024-2025 |
| Deiliad portfolio: | Cyng. Nicola Roberts (Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Newid Hinsawdd) |
| Pennaeth Gwaanaeth / Cyfarwyddwr: | Christian Branch<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| Awdur yr adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | John I. Williams (Rheolwr Polisi Cynllunio)<br><br>johnwilliams2@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Perthnaol i holl Aelodau Etholedig |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cyflwyno'r Adroddiad Monitro Blynyddol er mwyn cytuno arno cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## 2.0 Penderfyniad sydd ei angen

2.1 Bod y pwyllgor yn cymeradwyo'r Adroddiad Monitro Blynyddol 2024-25 ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## 3.0 Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB)

3.1 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol ei bod yn ofynnol monitro Cynlluniau Datblygu Lleol yn flynyddol a bod rhaid cyflwyno adroddiad sy'n crynhoi monitro o'r fath i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno drafft o'r seithfed Adroddiad Monitro Blynyddol, sy'n adrodd ar y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025. Mae'r AMB wedi'i lunio gan swyddogion y Tîm Polisi Cynllunio.

3.2 Mae'r AMB yn darparu sylfaen dystiolaeth bwysig ar gyfer adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cŷd (CDLl) a dros amser gall AMB ddangos tueddiadau, egluro

pa bolisîau sy'n cyflawni eu swyddogaeth neu fel arall, a thynnu sylw at a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth bolisi.

3.3 Mae'r AMB yn rhestru darganfyddiadau allweddol ac mae rhain yn cael eu hadnabod fel:

- Caniatâd wedi ei roi ar gyfer 88 o unedau preswyl newydd yn ystod 2024-25.
- 249 o unedau wedi eu cwblhau yn 2024-25 (sy'n fwy na'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog o 232 ar gyfer Ynys Môn[1]).
- 104 o unedau tai fforddiadwy wedi eu cwblhau yn 2024-25 sydd yn 41.76% o'r cyfanswm cwblhau am y flwyddyn.
- 2,697 o unedau wedi'u cwblhau yn Ynys Môn rhwng y dyddiad sylfaen (2011/12) a 2024/25, tra bod y llwybr yn rhagweld ffigwr o 3,231 o unedau.
- 63% o'r unedau a ganiatawyd yn ystod y cyfnod AMR o fewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Mae 16% o unedau wedi'u caniatau o fewn Canolfannau Gwasnaeth Lleol, gyda 19% arall wedi'u caniatau mewn Pentrefi, Clystyrau a Chefn Gwlad Agored.
- Caniatawyd 1 safle eithrio fforddiadwy (ystadau cyfan) yn ystod y cyfnod AMB, 1 annedd menter gwledig a 0 annedd fforddiadwy yng nghefn gwlad agored (cytundeb adran 106). Caniatawyd 1 datblygiad er mwyn galluogi adeiladau allanol rhestredig Gradd II hefyd.
- Mae 44% o'r unedau a roddwyd caniatâd iddynt ac a gwblhawyd ers mabwysiadu'r Cynllun yn unedau fforddiadwy (496 o unedau fforddiadwy allan o gyfanswm o 1134 o unedau).
- Ni gymeradwywyd unrhyw geisiadau Cynllunio ar gyfer math o ddatblygiad a fyddai'n cael ei ystyried yn 'ddatblygiad agored i newid iawn' yn unol â Ffigwr 2 of Nodyn Cyngor Technegol 15 (Datblygiad Pherygl Llifogydd). Ymhellach, roedd yr holl geisiadau a leolwyd (yn rhannol/llawn) o fewn parth llifogydd C2 yn cydymffurfio â'r profion fel y'u cynhwysir yn NCT 15.
- Caniatawyd cyfanswm o 8 cais Cynllunio ar safleoedd cyflogaeth diogelu yn unol â Pholisi CYF 1. Roedd pob un o'r ceisiadau hyn yn gysylltiedig â defnyddiau mewn defnydd dosbarthiadau B1, B2, a B8 neu ddefnyddiau presennol eraill sydd wedi'u lleoli ar y safleoedd cyflogaeth.
- Cynyddodd cyfradd twf economaidd Ynys Môn ers yr AMB blaenorol ac roedd yn uwch na chyfartaledd Cymru yn ystod cyfnod yr AMB.
- Bu cynnydd o 9.6% yn nifer cyffredinol y cymudwyr o Ynys Môn i Wynedd yn ystod y cyfnod AMB diwethaf.
- Un o amcanion strategol y CDLl yw hwyluso amrywiaeth yn yr economi wledig. Adlewyrchir hyn mewn caniatadau a roddwyd ar gyfer ystod o ddefnyddiau cyflogaeth yn ystod y cyfnod AMB megis:

---

[1] Gofyniad Cyfartalog Blynyddol y Cynllun ar y Cyd yw 479. Mae gofyniad cyfartalog blynyddol dangosol ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd wedi cael ei ddefnyddio i gynorthwyo i fonitro'r Gwaith a gwblhawyd ar ôl 2023.

    - safleoedd twristiaeth,
    - unedau busnes a manwerthu newydd,
    - unedau gofal plant,
    - salon harddwch cartref, arluniwr a stiwdios tatŵ,
    - busnes trin cŵn,
    - clinig llygaid,
    - lleoliad priodas,
    - llety gofal preswyl newydd,
    - datblygiadau amaethyddol.
- O ran apeliadau Cynllunio, gwrthodwyd 13 allan o 19 apêl i PEDW yn ystod y cyfnod AMB hwn gyda'r gweddill yn cael eu caniatâu. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd diswyddo apêl o 68.4%.

3.4 Mae'r canfydiadau allweddol yn dangos fod cwblhau tai ar gyfer y cyfnod yn fwy na rhai blynyddoedd blaenorol, ond mae cwblhau ar y cyfan yn parhau i fod i lawr o gymharu â'r ffigyrau targed a nodir yn y Cynllun. O ran arallgyfeirio'r economi wledig, mae'r polisiau'n hwyluso amrywiaeth o fusnesau bach i sefydlu. Wrth ystyried apeliadau Cynllunio, mae'n ymddangos bod y polisiau'n perfformio'n dda gyda bron i 70% o'r apeliadau'n cael eu gwrthod.

3.5 Mae'r AMB hwn yn adrodd data o Ynys Môn yn unig, yn dilyn terfyn trefniadau gweithio ar y cŷd â Chyngor Gwynedd ar faterion Polisi Cynllunio ym mis Ebrill 2023. Mae'n dilyn yr un fformat ag adroddiadau blaenorol ac yn dogfennu perfformiad y CDLl sy'n berthnasol i Ynys Môn yn unig.

3.6 Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn yr Adroddiad yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol i lywio datblygiad polisi yn y dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd ar gyfer Ynys Môn fydd yn adlewyrchu anghenion yr Ynys o safbwyntiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

## 4.0 Argymhelliad

4.1 Argymhellir bod yr Aelodau'n ystyried ac yn cytuno ar yr AMB draft (Atodiad 1) a'i gasgliadau (fel y nodwyd uchod yn y canfyddiadau allweddol) er mwyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad gofynnol o 31 Hydref 2025.